



Eich cyf/Your ref P-06-1227
Ein cyf/Our ref LN/10341/21/LN/00063/22
Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr pellach, dyddiedig 14 Chwefror, ynghylch y ddeiseb i sefydlu uned iechyd meddwl arbenigol ar gyfer mamau a'u babanod yn y Gogledd. Roeddech yn gofyn am eglurhad pellach ynghylch nifer o bryderon. Gweler yr wybodaeth yn yr ymateb isod.

Y cynlluniau penodol ar gyfer datblygu uned mamau a babanod ar gyfer y Gogledd a'i leoliad;

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn gweithio gyda GIG Lloegr wrth i'r cynnig symud drwy'r camau cynllunio hanfodol yn GIG Lloegr. Bydd yr union leoliad yn cael ei gadarnhau unwaith y bydd yr achos busnes yn cael ei gytuno, ond gallaf eich sicrhau mai un o'r amodau allweddol yw y bydd pobl y Gogledd yn cael mynediad rhwydd at yr uned.

Yr amserlen dybiedig ar gyfer gwneud y gwaith angenrheidiol i ddatblygu'r uned mamau a babanod, a phryd y bydd y ddarpariaeth ar gael;

Mae'r amserlenni'n dibynnu ar broses gynllunio GIG Cymru, ac rwy'n deall mai'r nod yw cwblhau'r achos busnes erbyn diwedd yr haf 2022, ac y bydd y gwasanaeth yn weithredol tua 18 mis wedi'r gymeradwyaeth derfynol. Rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i nodi unrhyw gyfleoedd i gyflymu'r amserlenni, lle bo hynny'n bosibl.

Yr angen i ymgynghori â menywod a'u teuluoedd yn y Gogledd, sydd â'r profiad bywyd perthnasol, er mwyn rhoi'r cyfle iddynt gyfrannu at y gwaith datblygu;

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r rheini sydd â phrofiad bywyd, ac ymgysylltir â chlinigwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a defnyddwyr gwasanaeth drwy gydol y broses. Bydd is-grŵp ymgysylltu'n cael ei greu fel rhan o broses yr achos busnes ffurfiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Bydd yr Arweinydd Clinigol Amenedigol Cenedlaethol hefyd yn cymryd rhan er mwyn sicrhau bod y gwaith ymgysylltu hwn mor drylwyr â phosibl.

Pa ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg fydd ar gael yn yr uned?

Rydym wedi bod yn glir ein bod yn disgwyl y bydd y gwasanaeth newydd yn ystyried anghenion y Gymraeg, ond rydym yn cydnabod yr heriau, yn enwedig o ran gwasanaethau y mae'n rhaid cael staff arbenigol iawn ar eu cyfer. Mae GIG Lloegr wedi ymrwymo i ddarparu llenyddiaeth ac arwyddion yn y Gymraeg, ac wedi ymrwymo i recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Bydd diweddariadau pellach ar y gwaith hwn ar gael drwy ein hadroddiadau cynnydd rheolaidd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor Iechyd Meddwl Amenedigol.

Yn gywir,



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing